


## Helpu rhywun sydd â

# llid yr ymennydd

Cam allweddol:
**Ffonio 999.**



## Gwybod beth i'w wneud:

Mae'n bosibl y bydd gan yr unigolyn symptomau tebyg i'r ffliw, cur pen a thymheredd uchel.

Efallai y bydd y person hefyd yn cwyno bod ei wddf yn stiff a'i fod yn sensitif i olau.

## Camau i'w cymryd:

Os byddwch chi'n gweld y symptomau hyn, ffoniwch 999 ar unwaith, neu gofynnwch i rywun arall wneud hynny.

Rhowch sicrwydd parhaus i'r person wrth i chi aros am yr ambiwlans.

## Gwybodaeth ategol:

Gall person sydd â llid yr ymennydd gael un neu fwy o symptomau, a bydd rhai symptomau'n ymddangos yn nes ymlaen wrth i'r haint ddatblygu.

Peidiwch ag aros i'r holl symptomau ymddangos. Heb driniaeth ar unwaith, gall llid yr ymennydd achosi niwed parhaol.

Gall person sydd â llid yr ymennydd ddirywio'n gyflym iawn.

Gall llid yr ymennydd fod yn ddifrifol iawn.

© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol.
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

Nerth caredigrwydd